



CEDAR: Canolfan ar gyfer Gwerthuso, Aseu Dyfeisiau ac Ymchwil Gofal Iechyd

Bwletin Chwarterol

Mawrth 2024, Rhifyn 6

Mae CEDAR wedi ymrwmo i gefnogi gofal claf-ganolog, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, trwy ymchwil a gwerthuso ymyriadau iechyd, technolegau a gwasanaethau'r GIG.

YN Y RHIFYN HWN

Newyddion CEDAR

Uchafbwyntiau diweddar gan y tîm.

Uchafbwyntiau'r Prosiect

Darganfyddwch pa brosiectau sydd wedi camu ymlaen yn CEDAR y chwarter hwn.

Arddangosfa Ffrwd Gwaith

Dysgwch am gyfranogiad CEDAR at addysgu ym Mhrifysgol Caerdydd.

Sbotolau Staff

Clywch gan Agatha Grove-Hills, ymchwilydd yn CEDAR.

Newyddion CEDAR

- Croeso cynnes iawn i [Agatha Grove-Hills](#) sydd wedi ymuno â thîm CEDAR yn ddiweddar.
- Canfu gwerthusiad diweddar CEDAR o wasanaeth Clefyd Llidus y Coluddyn (IBD) yn BIPCAF ganlyniadau cadarnhaol ar foddhad cleifion, llai o dderbyniadau brys a llawdriniaethau. Canfu'r gwerthusiad hefyd fudd posibl o ran cost oherwydd newid yn y gost o archwiliad brys i ddefnyddio cynhyrchion biolegol. Mae canlyniadau llawn y gwerthusiad i'w gweld [yma](#).
- Yn ddiweddar, croesawodd Canolfan Gwerth mewn Iechyd Cymru ([WViHC](#)) ymwelwyr o Saudi Arabia a oedd yn edmygus o'r gwaith sy'n cael ei wneud mewn cydweithrediad â CEDAR i wella canlyniadau iechyd ledled Cymru.
- Mae CEDAR wedi cynnal cyfarfod cyntaf y Grŵp Cyngori Proffesiynol ar gyfer prosiect sy'n archwilio offer grymuso cleifion a llythrennedd iechyd.
- Yn ddiweddar, cymerodd CEDAR ran mewn gwerthusiad effeithiolrwydd clinigol a chost-effeithiolrwydd dwy dechnoleg feddygol ar ran NICE; mae'r canllawiau wrthi'n cael eu datblygu a byddant yn cael eu cyhoeddi ddechrau mis Ebrill: [GaitSmart MTG575](#) a [Kurin Lock MTG582](#).

Galwad CEDAR am wirfoddolwyr:

- Rydym yn cynnal adnewyddiad o offeryn craidd y Mesur Profiad a Adroddir gan Gleifion Cenedlaethol (PREM) ar gyfer cleifion yng Nghymru, ac rydym yn chwilio am wirfoddolwyr i helpu profi a dilysu'r PREM wedi'i ddiweddarau. I gymryd rhan, ewch i'n gwefan [yma](#).
- Ydych chi ar restr aros am gastroscopi neu wedi cael gastroscopi yn ddiweddar? Rydym yn chwilio am wirfoddolwyr i gymryd rhan mewn arolwg am eich profiad ac unrhyw awgrymiadau sydd gennych ar sut i wella'r gwasanaeth. Cliciwch [yma](#) i gwblhau'r arolwg.



Mynychodd CEDAR Gynhadledd Ymchwil Canser Cymru 2024 - Diwrnod o drafodaethau diddorol ar bynciau fel cyfranogiad cleifion a'r cyhoedd mewn ymchwil ac anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol mewn diagnosis cancer.

UCHAFBWyNTIAU'R PROSIECT

Canllawiau Technolegau Meddygol NICE ar GaitSmart

Mae CEDAR yn falch o fod wedi cyfrannu at ddatblygu canllawiau technoleg feddygol NICE ar GaitSmart. Mae GaitSmart yn dechnoleg ddigidol sy'n seiliedig ar synwryddion sydd wedi'i dylunio i fesur symudiad aelodau isaf, sy'n gweithio ochr yn ochr ag ymarferion adsefydlu personol ar gyfer pobl â phroblemau cerddediad a symudedd. Mae canllawiau drafft NICE yn awgrymu bod rhaglen ymarfer corff adsefydlu GaitSmart yn addawol ar gyfer problemau cerddediad a symudedd mewn pobl sydd mewn perygl o gwmpo, a phobl sy'n cael clun neu ben-glin newydd. Fodd bynnag, mae'r canllawiau drafft yn nodi nad oedd digon o dystiolaeth i gefnogi'r achos dros fabwysiadu'r rhaglen fel mater o drefn, ac o ganlyniad, argymhellwyd ymchwil pellach. Bydd yr argymhellion llawn yn cael eu cyhoeddi ddechrau mis Ebrill yma: [Canllawiau Technolegau Meddygol NICE ar gyfer GaitSmart](#).

CanSense

Mae CEDAR wedi bod yn cynnal asesiad economaidd iechyd ar gyfer [CanSense](#) i werthuso'r effaith ariannol a chlinigol y gallai'r dechnoleg ei chael ar restrau aros endosgopi yn BIP Caerdydd a'r Fro. Mae CanSense, sydd wedi'i leoli yn Abertawe, yn datblygu prawf gwaed cyflym a rhad ar gyfer diagnosis cynnar o ganser y coluddyn gan ddefnyddio modelu ar sail deallusrwydd artifisial. Y gobaith yw y gall leihau marwolaethau o ganser y coluddyn trwy ddiagnosis cynnar, a lleihau'r gofynion ar y gwasanaeth endosgopi trwy gynnig dewis arall yn lle diagnosis trwy colonosgopi mewnwithiol. Mae'r prawf yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd gyda'r gobaith o gael ei roi ar waith yn y GIG yng Nghymru o fewn y 12 mis nesaf.



Adnewyddu'r Mesur Profiad a Adroddir gan Gleifion (PREM)

Mae Mesurau Profiad a Adroddir gan Gleifion neu PREMs yn mesur profiad person o ofal iechyd, a gallant helpu GIG Cymru i ddeall boddhad cleifion a gwella gwasanaethau. Er mwyn cysoni casglu data ledled Cymru, datblygwyd set o PREMs craidd yn 2013 a'i diweddarau yn 2017. Er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn berthnasol i'r gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu CEDAR i gynnal 'adnewyddiad' o'r PREM craidd. Mae Cam Un wedi cynnwys grwpiau ffocws gyda rhanddeiliaid gan gynnwys defnyddwyr gwasanaeth, cynrychiolwyr o grwpiau eirioli a thimau profiad cleifion. Mae hyn wedi arwain at arolwg drafft sydd bellach yn cael ei ddefnyddio i gasglu adborth fel rhan o'r broses brofi a dilysu, gyda dros 300 o ymatebion hyd yma, gan gynnwys pobl o bob sir yng Nghymru. Darllenwch ragor am y prosiect ar ein gwefan [yma](#).

Arddangosfa Ffrwd Gwaith – Addysgu ym Mhrifysgol Caerdydd

Mae Cymrawd Ymchwil Prifysgol Caerdydd, Sue Peirce, yn disgrifio peth o waith addysgu CEDAR:

Ers 2012, mae CEDAR wedi bod yn gydweithrediad rhwng Ysgol Beirianneg Prifysgol Caerdydd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Dros y cyfnod hwnnw, rydym wedi datblygu ac arwain modiwl israddedig trydedd flwyddyn ar gyfer y rhaglen Peirianneg Feddygol. Mae'r modiwl Gwerthuso Dyfeisiau Meddygol yn ymgorffori sgiliau sy'n graidd i lawer o waith CEDAR ac mae'n seiliedig ar ein ffrwd waith Canllawiau Technolegau Meddygol NICE: cynnal chwiliadau llenyddiaeth strwythuredig, dylunio astudiaeth glinigol ac arfarnu beirniadol, ac amcangyfrif costau cymharol gofal iechyd. Y nod yw rhoi'r gallu i beirianwyr meddygol y dyfodol i feddwl yn feirniadol am dechnolegau meddygol a barnu eu gwerth.

SBOTOLAU STAFF

Rydyn ni'n siarad ag Ymchwilydd, Agatha Grove-Hills:



Dywedwch ychydig wrthym amdanoch chi a'ch rôl:

Ymunais â CEDAR ychydig wythnosau yn ôl fel rhan o gynllun adleoli, yn dod o Radiofferylliaeth mewn Ffiseg Feddygol. Dechreuais weithio yn Ysbyty Athrofaol Cymru ychydig ar ôl cwblhau fy ngradd Meistr mewn Niwroddelweddu, a bûm yno am ychydig dros flwyddyn. Rwy'n helpu gydag ychydig o brosiectau megis yr astudiaeth HELPP a recriwtio siaradwyr Cymraeg ar gyfer gwaith cyfieithu Mesurau Canlyniadau a Adroddir gan Gleifion (PROMs).

Pa 3 gair fyddech chi'n eu defnyddio i ddisgrifio CEDAR?

Trefnus, Ymroddedig, Desgiau sefyll

Beth yw rhywbeth yr ydych yn arbennig o falch ohono?

Dysgais i fy hun sut i ddarllen pan oeddwn i'n blentyn!

Dewiswch archbŵer.

Gallu gwylio unrhyw gêm chwaraeon y gellir ei dychmygu a gwybod y rheolau i gyd yn syth.

Beth sy'n ffaith amdanoch chi y byddai pobl yn synnu ohoni?

Cefais fy magu yn dysgu tair iaith: Saesneg, Ffrangeg a Mandarin (er bod Sbaeneg bellach wedi cymryd lle'r olaf).